


Bagloriaeth Cymru Uwch



I ennill y cymhwyster **Bagloriaeth Cymru Uwch**, mae'n rhaid i ddysgwyr gwblhau pob elfen ar yr olwyn.

Dyfernir y cymhwyster fel gradd **Llwyddo** pan fydd dysgwyr wedi llwyddo yn y Dystysgrif Her Sgiliau a'r holl Gymwysterau Ategol. Mae'n dangos, yn yr un lle, gallu academiaidd a chymhwysedd sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi.

Tystysgrif Her Sgiliau Uwch

Cynlluniwyd y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch i alluogi dysgwyr i ennill a chymhwyso amrywiaeth o sgiliau Hanfodol a Chyflogadwyedd mewn lleoliadau a chyd-destunau gwahanol sy'n rhoi addysg ehangach i ddysgwyr. Bydd yn cynnig profiadau i gefnogi pynciau eraill a fydd yn golygu bod dysgwyr yn fwy parod i symud ymlaen yn y dyfodol – i'r brifysgol, hyfforddiant pellach neu i gyflogaeth.

Graddio'r Dystysgrif Her Sgiliau ar lefel Uwch:

I ennill y cymhwyster, mae'n rhaid i ddysgwyr lwyddo yn yr holl gydrannau. Caiff y marciau eu hadio at ei gilydd i roi gradd **A* – E**, sy'n gyfwerth â graddau Safon Uwch. Y radd hon neu'r pwyntiau tariff UCAS cyfatebol fydd yn cael eu cynnwys mewn cynigion gan brifysgolion.

Trosolwg o'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cynnwys 4 cydran:

- Project Unigol (50%)
- Her Menter a Chyflogadwyedd (20%)
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang (15%)

- Her y Gymuned (15%)

Mae'r 7 sgil yn ymwneud â chymhlethdod; maent yn amlweddol, gan gynnwys llawer o rannau gwahanol ond cysylltiedig.

Llythrennedd	Y gallu i fynegi syniadau cymhleth yn ysgrifenedig ac ar lafar, gan addasu iaith a therminoleg mewn ffordd sy'n briodol i'r gynulleidfa
--------------	---

Rhifedd	Y gallu i goladu, dadansoddi a chyflwyno data/gwybodaeth rhifiadol cymhleth o amrywiol ffynonellau, gan ddethol ystyr priodol
---------	---

Llythrennedd Digidol	Y gallu i ddeall a defnyddio technoleg ddigidol at ddibenion cymhleth, mewn ffordd sy'n briodol i'r gynulleidfa
-------------------------	---

Cynllunio a Threfnu	Y gallu i reoli eich hun a/neu bobl eraill, adnoddau ac amgylchiadau i gyrraedd nod penodol sy'n gymhleth
------------------------	---

Meddwl yn feirniadol a datrys problemau	Y gallu i gasglu gwybodaeth berthnasol, nodi materion allweddol, cysylltu gwybodaeth a'i chymharu, a dod i gasgliadau er mwyn datrys problemau cymhleth
--	---

Creadigrwydd ac Arloesi Y gallu i gynhyrchu syniadau cymhleth gwreiddiol a thrawsnewid syniadau mewn ffordd ymarferol i ddatblygu cynnyrch, gwasanaeth, proses, system neu ryngweithio cymdeithasol newydd neu well

Effeithiolrwydd Personol Y gallu i addasu eich sgiliau a'ch priodoleddau i sicrhau canlyniadau o safon uchel. Addasu eich ymddygiad ar gyfer tasgau, sefyllfaoedd ac unigolion.

Ysgol Uwchradd Bodedern

Bl 12 - Cychwyn Her Menter a Chyflogadwyedd, Her Dinasyddiaeth Fyd-eang a'r Her y Gymuned.

Bl 11 - Gorffen Her Menter a Chyflogadwyedd a'r Project Unigol.

Her y Gymuned yn y Gorffennol

Dyma rai o weithgareddau hyfforddiant y disgyblion hŷn:

- hyfforddwr 5 x60 yn yr ysgol
- hyfforddwr dawnsio/gymnasteg oddi mewn ac allan yr ysgol
- arwain clwb Celf
- arwain sesiynau pêl-droed
- arwain clwb WiciMôn yn yr ysgol ac yn yr ysgol gynradd
- codi ymwybyddiaeth o elusen benodol
- cefnogi grwpiau penodol o ddysgwyr mewn gwersi megis Hanes, Daearyddiaeth, Ffrangeg, Mathemateg.
- cefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion iau yn y cynradd hefo llythrennedd, rhifedd, technoleg a rhifedd.

Her Menter a Chyflogadwyedd

Fel rhan o briff Dofi'r Ddraig gan Tŷ Gobaith, lle'r oedd swyddog o'r elusen yn buddsoddi £50 mewn busnes neu wasanaeth gan y chweched dosbarth. Cafwyd nifer o fusnesau megis Prendigedig (addurniadau pren), Snap Mewn Steil (bŵth tynnu lluniau), Bwndeli Boded (pethau da mewn jar gwydr) a oedd yn defnyddio'r buddsoddiad i gychwyn eu busnes nhw ac unrhyw elw oedd yn cael ei wneud, roedd yn mynd tuag at Tŷ Gobaith. Dros ddwy flynedd, llwyddwyd i godi tua £1000.



Dolenni at fwy o wybodaeth:

Llawlyfr y Disgybl - cliciwch [yma](#).